Pen-y-bont ar Ogwr

communities *first*
cymunedau *yn gyntaf*

Hybu a chefnogi

Iechyd • Ffyniant • Dysgu

...yn eich cymuned

Rhif ffôn: 01656 643 514
E-bost: communitiesfirst@bridgend.gov.uk
www.commfirstbridgend.co.uk

facebook.com/communitiesfirstbridgend
@C1stBridgend

Un o fentrau
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
Initiative

Cyngor Bwrdeistref Sirol
Pen-y-bont ar Ogwr
BRIDGEND
County Borough Council

Beth yw Cymunedau yn Gyntaf Pen-y-bont ar Ogwr?

Nod ein rhaglen Cymunedau yn Gyntaf, a ariennir gan Lywodraeth Cymru ac a reolir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, yw lleihau tlodi trwy wella addysg a sgiliau, iechyd a chyfleoedd cyflogaeth.

Mewn ardaloedd cod post penodol ym mhob rhan o Fwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, mae ein timau'n gweithio gyda thrigolion, sefydliadau cymunedol, busnesau ac asiantaethau allweddol eraill i leihau'r bwlch economaidd a'r bylchau ym maes addysg, sgiliau ac iechyd rhwng ein hardaloedd mwyaf difreintiedig a'r ardaloedd mwy cefnog.

Helpu pobl i ddod yn fwy cyflogadwy a chynyddu eu cyllid

Mae Cymunedau yn Gyntaf yn ceisio cynyddu sgiliau a hyder pobl er mwyn gwella eu gobeithion wrth chwilio am waith. Gan weithio gyda phartneriaid a busnesau lleol newydd a rhai presennol, mae ein timau yn helpu pobl i ddatblygu sgiliau cyflogaeth, dod o hyd i waith a rhoi cymorth a chyngor iddynt i reoli dyledion a chynyddu eu hincwm.

Datblygu sgiliau dysgu teuluoedd ac oedolion

Mae Cymunedau yn Gyntaf Pen-y-bont ar Ogwr yn cefnogi pobl ifanc i wneud yn dda yn yr ysgol a helpu teuluoedd i gymryd mwy o ran yn addysg eu plant, codi dyheadau oedolion o ran eu gyrfa, cynyddu'r cyfleoedd i bobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant a datblygu hunanhyder a hunan-barch.

Cefnogi cymunedau iachach

Mae Cymunedau yn Gyntaf Pen-y-bont ar Ogwr yn gweithio yn y gymuned leol gan gynnig sesiynau coginio a maeth, diwrnodau gwybodaeth am fyw'n iach, dosbarthiadau ymarfer corff a chyrsiau rheoli bwyd i hybu dull iach o fyw i wella lles corfforol a lles meddwl.

I gael mwy o wybodaeth ynglŷn â sut y gall Cymunedau yn Gyntaf Pen-y-bont ar Ogwr eich helpu CHI

Rhif ffôn: 01656 643 514
E-bost: communitiesfirst@bridgend.gov.uk
www.commfirstbridgend.co.uk

communities *first*
cymunedau *yn gyntaf*

Cymunedau yn Gyntaf Pen-y-bont ar Ogwr
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Y Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 4WB

© Cymunedau yn Gyntaf Mawrth 2016